The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw piblinell danddaearol newydd ar gyfer cludo carbon deuocsid ($CO_2$) o Swydd Gaer, Lloegr, i Sir y Fflint, Cymru, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ei gweithredu, gan gynnwys Gosodiadau Ar Ben Tir (AGIs) a Gorsafoedd Falfiau Atal (BVSs), a datblygiadau cysylltiedig eraill. Mae cydrannau'r datblygiad arfaethedig hwn wedi'u nodi'n fanylach isod:**

- **Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow – rhan o biblinell danddaearol ar y tir, tua 4 km o hyd (20" mewn diamedr) â chapasiti o hyd at 2.5 miliwn tunnell o garbon deuocsid y flwyddyn ($MtCO_2$ y flwyddyn) ar bwysedd o tua medrydd 38 bar (barg) i gludo $CO_2$.**

- **Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint – rhan o biblinell danddaearol ar y tir, tua 32 km o hyd (36" mewn diamedr) â chapasiti o hyd at 10 $MtCO_2$ y flwyddyn ar bwysedd o tua 35 barg i gludo $CO_2$.**

- **Piplinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint – rhan o biblinell gysylltu danddaearol ar y tir, tua 400m o hyd (24" mewn diamedr) â chapasiti o hyd at 4.5 $MtCO_2$ y flwyddyn ar bwysedd o tua 33 barg i gludo $CO_2$.**

- **Piblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du – rhan o'r biblinell danddaearol ar y tir bresennol, tua 24 km o hyd (24" mewn diamedr) rhwng Cei Connah a Therfynell y Parlwr Du, sy'n cludo nwy naturiol ar hyn o bryd ond a fyddai'n cael ei haddasu a'i hailddefnyddio i gludo $CO_2$. Cyfeirir at y rhan hon o Biblinell Cei Connah i'r Parlwr Du yn Natganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd fel Piblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du. Bydd y gwaith adeiladu ar hyd Piblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du yn cael ei gyfyngu i waith sy'n ymwneud â chysylltu:**

  - **Piblinell AGI y Fflint i Gysylltiad y Fflint;**
  - **Y tair BVS (Gorsafoedd Falfiau Atal) wrth osod rhannau bach o biblinell gysylltu; a**
  - **Therfynell y Parlwr Du (yn amodol ar gymeradwyaeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (felly y'i diwygiwyd)).**

- **Pedwar AGI – AGI Ince, AGI Stanlow, AGI Northop Hall a AGI y Fflint**

- **Chwe BVS – wedi’u lleoli ar hyd:**

  - **Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint; a**
  - **Phiblinell Cysylltiad y Fflint i Derfynell y Parlwr Du.**

**Cofnod yr Awdurdod Archwilio o’r Arolygiad Safle Heb Gwmni a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022.**

Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio'r arolygiad mewn car ac ar droed ar ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Cynlluniwyd y llwybrau gan roi ystyriaeth i Ddatganiad Amgylcheddol (DA) yr ymgeisydd, a galluogwyd yr Awdurdod Archwilio i gael golygfeydd o safleoedd y cais a’r ardaloedd cyfagos. Mae’r amseroedd yn fras.

Rhoddir lleoliadau golygfannau fel y’u nodir yn y Ddogfen Gais o’r enw ‘Cynllun Golygfannau’ Diwygiad A (sydd wedi’i gynnwys yn y DA (Cyfrol IV, Ffigur 12.3)) [APP-205]. Nodwyd lleoliadau asedau treftadaeth dynodedig ac asedau treftadaeth heb eu dynodi ar hyd y llwybr, fel y manylir yn y DA (Cyfrol IV, Ffigur 8.1 – Asedau Treftadaeth Dynodedig [APP-200] a Chyfrol IV, Ffigur 8.2 – Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi [APP-201]). Yn ogystal, nodwyd y canlynol ar hyd y llwybr: Lleoliadau’r Arolwg Sŵn Amgylcheddol a Chyfyngiadau Sŵn (DA, Cyfrol IV, Ffigur 15.1) [APP-208], Lefelau Sŵn Adeiladu a Ragwelir (DA, Cyfrol IV, Ffigur 15.2) [APP-209] a Maint Effeithiau Sŵn Adeiladu (DA, Cyfrol IV, Ffigur 15.3) [APP-210].

| Dyddiad | Amser | Golygfan | Cyflwr y Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| **Arolygiad Safle Heb Gwmni 1** | | | | |
| 15/11/2022 | 9.25AM | - | Glaw cymedrol, cymylog, gweledDuring cymedrol. | Dechrau’r Arolygiad Safle Heb Gwmni yn Nhalacre gan yrru i Babell a safle BVS Babell. |
| 15/11/2022 | 9.55AM | B3 | Glaw cymedrol, cymylog, gwelededd cymedrol. | Cyrraedd Babell a gweld y fynedfa i BVS Babell ar Racecourse Lane, wedyn gwelwyd ar y safle ar draws caeau o Babell Road a Golygfan B3 o Hawl Tramwy Cyhoeddus (HTC) 417/76. Symud ymlaen i Bentre Helygain, ar hyd Ffordd Babell. |
| 15/11/2022 | 10:45AM | B5, B6 a B7 | Glaw ysgafn, cymylog, gwelededd cymedrol. | Cyrraedd Pentre Helygain a gweld mynedfa a safle BVS Pentre Helygain o Ffordd Licswm (B5121) a Golygfannau B5, B6 a B7. Hefyd, gwelwyd lleoliad gwaith stryd. Symud ymlaen o’r safle hwn i BVS Cornist Lane. |

| Dyddiad | Amser | Golygfan | Cyflwr y Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| 15/11/2022 | 11:00am | B8 a B9 | Y glaw wedi peidio, cymylog, gwelededd gwell. | Cyrraedd lleoliad BVS Cornist Lane a gweld y fynedfa arfaethedig o’r briffordd gyhoeddus (Golygfan B9), yn ogystal â lleoliad gwaith stryd. Roedd rhai golygfeydd ar gael o leoliad y BVS ar hyd y fynedfa o’r briffordd gyhoeddus, ond roedd y rhain yn gyfyngedig oherwydd topograffi’r safle. Yn ogystal, gwelwyd y safle o Lleprog Lane (Golygfan B8). Symud ymlaen o’r safle hwn i leoliadau AGI y Fflint. |
| 15/11/2022 | 11.10am | WAGI3 a WAGI4 | Sych, cymylog, gwelededd yn gwella. | Cyrraedd lleoliad AGI y Fflint, gan ganolbwyntio ar yr opsiwn canol, ond gan nodi lleoliadau’r opsiwn dwyreiniol a’r opsiwn gorllewinol hefyd. Gwelwyd y safle o Allt-Goch Lane a Golygfannau WAGI3 a WAGI4. Nodwyd llwybr HTC 404/66 a llwybr amgen, yn ogystal â lleoliad peilonau a lleoliad gwaith stryd. Symud ymlaen o’r safle hwn i AGI Neuadd Eurgain. |
| 15/11/2022 | 11:30am | WAGI9 | Sych, cymylog, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad AGI Neuadd Eurgain a lleoliad dewisol yr amgaefa adeiladu. Gwelwyd y safle o Village Road (B5125), a nodwyd lleoliad HTC 414/4, y strydoedd sy’n destun gwaith stryd, a Golygfan WAGI8. Symud ymlaen o’r safle hwn i leoliadau BVS Aston Hill. |
| 15/11/2022 | 11.45am | B13 a B12 | Sych, cymylog, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad BVS Aston Hill a gweld y ddau opsiwn arfaethedig o Lower Aston Hall Lane, gan gynnwys Golygfan B13 (gan nodi mai Upper Aston Hall Lane yw teitl B13), a symud ymlaen i leoliad gweld Overlea Drive o’r ffordd rhwng yr adeiladau, gan nodi Golygfan B12. Hefyd, nodwyd lleoliad HTC 303/34 a strydoedd sy’n destun gwaith stryd. O’r safle hwn, symudwyd ymlaen i Rodfa’r Tywysog William, Sandycroft. |
| 15/11/2022 | 12:10pm | P6 | Sych, cymylau’n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd Rhodfa’r Tywysog William, Sandycroft, ar ôl nodi Golygfan P6 wrth agosáu. Edrych o ben y ffordd tuag at Afon Dyfrdwy, ond nid yw’r afon a’r groesfan arfaethedig yn weladwy o’r safle hwn. Symud ymlaen i Hermitage Road, Saughall. |

| Dyddiad | Amser | Golygfan | Cyflwr y Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| 15/11/2022 | 12:35pm | P10 | Sych, cymylau'n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd Hermitage Road, Saughall, gyda'r bwriad o edrych ar y groesfan ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ond unwaith eto, nid oedd lleoliad y groesfan yn weladwy o'r briffordd gyhoeddus. Nodwyd Golygfan P10 (Hermitage Road, Saughall). Symud ymlaen o'r safle hwn i leoliadau BVS Mollington. |
| 15/11/2022 | 12:55pm | B15 a P11 | Sych, cymylau'n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad BVS Mollington. Gweld mynedfa a safle opsiwn 2 o Overwood Lane (yn cynnwys Golygfan B15), a nodi lleoliad strydoedd sy'n destun gwaith stryd, a lleoliad opsiwn 1 o Townfield Lane (yn cynnwys Golygfan P11), a nodi HTC 211/FP7/1. O'r safle hwn, symudwyd ymlaen i BVS Rock Bank. |
| 15/11/2022 | 1:10pm | - | Sych, cymylau'n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad BVS Rock Bank a gweld lleoliad dangosol y fynedfa a'r safle o Chorlton Lane, yn ogystal â strydoedd sy'n destun gwaith stryd. Nodwyd yr agosrwydd at Gamlas Undeb Swydd Amwythig a lleoliadau golygfannau ar hyd y gamlas (Golygfan 14 a Golygfan 14a), yn ogystal â mynedfeydd ar Croughton Road a Caughall Road. O'r safle hwn, symudwyd ymlaen i leoliadau Amgaefa Adeiladu Stanlow. |
| 15/11/2022 | 1.30pm | - | Sych, cymylau'n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad Amgaefa Adeiladu Stanlow, gan ei weld o Old Cryers Lane. Cerdded ar hyd yr A5117 am bellter byr gan nodi lleoliad Heneb Gofrestredig Elton, er nad yw'n weladwy o'r briffordd gyhoeddus. Dychwelyd i'r cerbyd a symud ymlaen i leoliad dangosol AGI Stanlow. |
| 15/11/2022 | 1.50pm | EAGI4 | Sych, cymylau'n clirio, gwelededd da. | Cyrraedd lleoliad dangosol AGI Stanlow a'i weld o Poole Lane a'r A5117, gan nodi Golygfan EAGI4. Fodd bynnag, nid oedd AGI Stanlow yn weladwy o'r olygfan gyhoeddus hon. Daeth yr Arolygiad Safle Heb Gwmni i ben am 2pm. |